



Adders are Amazing! Gwiberod Gwych!

## 2. ECOLEG YMARFEROL



### CYFLWYNIAD



Pan fyddwch yn gweithio gydag ysgolion, mae'n werth archwilio'r cwricwlwm cenedlaethol presennol ar gyfer eich gwlad chi, i weld sut y gallwch deilwra eich gweithdy i gyfateb i hyn. Mae ysgolion llawer yn fwy tebygol o neilltuo amser ar gyfer eich ymweliad, neu gynnal teithiau maes, os oes cysylltiadau clir at y cwricwlwm. Mae'r daflen hon yn amlygu pethau y gallech eu cynnwys. Gall gwaith ymgysylltu â gwiberod ffitio i gymaint o feysydd yn y cwricwlwm, gan gynnwys: celf, hanes, daearyddiaeth, drama, mathemateg, Cymraeg a Saesneg iaith - barddoniaeth, ysgrifennu creadigol. Serch hynny, y cysylltiad amlycaf yw ecoleg a gwyddoniaeth. Edrychwch ar y daflen 'Cerdd am wiberod' a'n holl weithgareddau artistig i gael mwy o syniadau.

Mae ein taflen 'Cadwyni a gweoedd bwyd' hefyd yn cynnig syniadau ar gyfer gweithgaredd ecolegol syml, y gallwch ei addasu at oed a Chyfnod Allweddol eich grŵp. Ar y daflen hon, cechw ragor o gyngor am sut i ddod ag ecoleg i mewn i'r ystafell ddosbarth pan fyddwch yn siarad am wiberod.

Rhowch glic ar adran 'Adders are Amazing/Gwiberod Gwych' gwefan ARG UK er mwyn lawrlwytho templed PowerPoint rhad ac am ddim y gallwch ei ddatblygu i'w ddefnyddio mewn sesiynau yn yr ystafell ddosbarth. Mae cyngor pellach yn yr adran 'Adnoddau'.

### GAIR O GYNGOR!



1

Y ffordd orau o addysgu ecoleg ymarferol bob tro, yw addysgu yn yr awyr agored! Os ydych wedi eich cyfyngu at dir yr ysgol, ewch â'r plant allan i'r awyr agored i weld os ydynt yn gallu dod o hyd i gynefin gerllaw, a allai fod yn gartref i wiberod neu ymlusgiaid. Trafodwch pa mor dda y gallai tir yr ysgol fod, fel lle i ymlusgiaid - pam nad yw arwyneb caled yr iard chwarae neu wair byr y cae chwarae, yn lle da i fod os ydych chi'n ymlusgiad? Mae'n eithaf agored, ac felly byddai ysglyfaethwyr yn eich bwyta'n go gyflym! Beth sydd arnynt ei angen? Cysgod, bwyd a dŵr (gallech hefyd drafod cymar). Ble ar dir yr ysgol y gallent ddod o hyd i'r rhain? Gallwch greu 'cynefin' artiffisial gan ddefnyddio blociau ffôm, teganau, brigau - beth bynnag y gallwch ddod o hyd iddo, a chreu strwythur gaeafgyssgu neu fan haul - efallai pwll ffug hefyd ar gyfer 'bwyd y nadroedd'. Gallech ei greu ar raddfa fawr ar gyfer nadroedd maint pobl, a chael y plant (a'u hathrawon) i roi tro arno!



2

Os yn bosibl, ewch â'r plant ar daith maes i gynefin gwiberod go iawn. Os ydych yn gwneud hyn fel rhan o weithgaredd ARG, cofiwch wneud asesiad risg - mae un generig ar gael gan ARG UK. Y ffordd orau o addysgu plant yw dangos lle go iawn ble mae gwiberod go iawn yn byw, er mwyn dod â'r dysgu yn fyw, a thawelu eu meddyliau nad ydynt yn greaduriaid bach dychrynlyd nac yn llercian ymhobman!






Os ydych yn gweithio gydag ysgol uwchradd, gofynnwch i'r athrawon ddod â chwadradau metel. Os nad ydynt ar gael, gallwch ddefnyddio cylchoedd hwla er mwyn samplu'r llystyfiant yng nghyfeffin y gwiberod. Mae hyn y bwysig, oherwydd er nad yw'n debygol y byddant yn gweld gwiber go iawn (grwpiau mawr = tipyn o darfu = dim nadroedd), gallwch ganolbwyntio ar ecoleg y cynefin cyfan. Darganfyddwch ger pa blanhigion y mae gwiberod yn byw! Pa bryfed, mamaliaid, adar sydd hefyd yn byw yma? Sut y byddech yn dod o hyd iddynt ac yn eu hadnabod? Mae hyn yn gymorth mawr er mwyn i'r grŵp weld sut y mae gwiberod yn ffitio i'r amgylchedd naturiol. Mae plant wrth eu bodd yn taflu cwadratau dros eu hysgwydd er mwyn cymryd hapsampl, ond gwylwch rhag gylchoedd hwla sy'n hedfan!



### 3

Dewch i chwarae'r cwis chwilio am wiberod (gweler y daflen), gan ddefnyddio gwiberod cardfwrdd gyda chwestiynau gwir neu gelwydd ar y cefn. Gallech wneud hyn ar dir yr ysgol neu ar daith maes. Cuddiwch y gwiberod cardfwrdd mewn llefydd sy'n addas i wiberod, er mwyn i'r grŵp ddsygu sut i chwilio am wiberod. Mae hyn yn gymorth i sicrhau bod taith maes neu daith o amgylch tir yr ysgol, yn llifo, wrth i'r plant gymryd rhan mewn gweithgaredd arbennig a'u cadw'n brysur - hyd yn oed os nad ydynt yn dod o hyd i unrhyw wiberod go iawn!



### 4

Wrth siarad â phlant, mewn ystafell ddosbarth neu allan yn y maes, addysgwch ffeithiau cywir a hwylus am wiberod - yn enwedig rhai sy'n eu helpu i ymdeimlo â nadroedd; mae hyn yn datblygu empathi. Dyma ambell un er mwyn dechrau arni.

- Mae gwiberod wrth eu bodd yn torheulo. Mae arnynt angen gwres, i dreulio eu cinio a thyfu eu babanod.
- Mae kannwyll llygad gwiber yn fertigol, fel ei bod yn gallu gweld yn well yn y tywyllwch!
- Nid yw'r wiber yn cael babis bob blwyddyn!
- Mae gwiberod yn geni rhwng 8 a 12 babi, ar gyfartaledd - dydyn nhw ddim yn dodwy wyau.
- Mae gwiberod yn bwyta tua 8 i 10 gwaith y flwyddyn yn unig. Waw!
- Gall wiberod fyw nes eu bod dros 30 oed.
- Rydyn ni'n diosg hen groen bob dydd, ychydig ar y tro. Maen nhw'n diosg eu croen i gyd ar yr un pryd. Hawdd!
- Mae gwiberod lawer yn llai na nadroedd y gwair ac maen nhw'n swil ac yn ddiniwed iawn ac yn hoffi heddwch a thawelwch.

